# Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013

**2013 dccc 4**

## RHAN 3

TREFNIADAU AR GYFER LLYWODRAETH LEOL

## PENNOD 7

DARPARIAETH AMRYWIOL

### 48 Cyfarwyddiadau a chanllawiau ynghylch Rhan 3

(1) Caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddiadau i'r Comisiwn sy'n ymwneud ag arfer ei swyddogaethau o dan y Rhan hon.

(2) Yn benodol, caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo'r Comisiwn—

(a) i gynnal adolygiad o dan y Rhan hon (gan gynnwys, pan fo'r Comisiwn wedi gwneud argymhellion neu gynigion iddynt, adolygiadau pellach),

(b) i beidio â chynnal adolygiad o dan adran 28 yn ystod cyfnod a bennir yn y cyfarwyddyd,

(c) i gynnal adolygiad o dan adran 29 ar gyfer ardal llywodraeth leol newydd (o fewn ystyr adran 171 o Fesur 2011) fel pe bai'n ardal llywodraeth leol,

(d) i gynnal yr adolygiadau sy'n ofynnol o dan adran 29(1) mewn trefn wahanol i'r hyn a gynigir gan y Comisiwn mewn unrhyw raglen gyfredol ar gyfer adolygiadau o drefniadau etholiadol a lunnir yn unol â'r adran honno,

(e) i roi sylw i unrhyw faterion penodol a bennir yn y cyfarwyddyd wrth gynnal adolygiad.

(3) Nid yw is-adran (1) yn cyfyngu ar y pŵer cyfarwyddo cyffredinol o dan adran 14.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddiadau i brif gyngor sy'n ymwneud ag arfer ei swyddogaethau o dan y Rhan hon.

(5) Yn benodol, caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo prif gyngor—

(a) i gynnal adolygiad o dan adran 25 neu 31,

(b) i roi sylw i unrhyw faterion penodol a bennir yn y cyfarwyddyd wrth gynnal adolygiad.

(6) Rhaid i brif gyngor gydymffurfio â chyfarwyddyd a roddir gan Weinidogion Cymru o dan is-adran (4).

(7) Caniateir i gyfarwyddiadau o dan yr adran hon ymwneud ag adolygiad penodol, math o adolygiad neu bob adolygiad.

(8) Ond cyn rhoi cyfarwyddyd o dan yr adran hon mewn perthynas ag adolygiad o brif ardal neu ei threfniadau etholiadol (neu adolygiadau o brif ardaloedd neu eu trefniadau etholiadol yn gyffredinol), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiwn ac unrhyw gymdeithas yr ymddengys iddynt eu bod yn cynrychioli awdurdodau lleol.

(9) Wrth arfer unrhyw swyddogaeth o dan y Rhan hon, rhaid i'r Comisiwn neu brif gyngor roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru.

## 49 Ymchwiliadau lleol

(1) Caiff y Comisiwn neu, yn ôl y digwydd, brif gyngor, beri i ymchwiliad lleol gael ei gynnal mewn cysylltiad ag unrhyw adolygiad a gynhelir ganddo o dan y Rhan hon.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru, y Comisiwn neu, yn ôl y digwydd, brif gyngor beri i ymchwiliad lleol gael ei gynnal mewn cysylltiad â gorchymyn drafft a lunnir o dan adran 43.

(3) Caiff person a benodir i gynnal ymchwiliad drwy wŷs ei gwneud yn ofynnol i berson fod yn bresennol ar adeg ac mewn man a bennir yn y wŷs—

(a) i roi tystiolaeth, neu

(b) i gyflwyno unrhyw wybodaeth yn ymwneud ag unrhyw fater dan sylw a ddelir gan y person neu sydd o dan reolaeth y person.

(4) Caiff person a benodir i gynnal ymchwiliad gymryd tystiolaeth ar lw ac at y diben hwnnw caiff weinyddu llwon.

(5) Rhaid talu unrhyw dreuliau yr eir iddynt yn rhesymol i berson y mae'n ofynnol iddo fod yn bresennol o dan is-adran (3).

(6) Er gwaethaf is-adran (3)(b), ni chaniateir ei gwneud yn ofynnol i berson gyflwyno teitl (neu unrhyw offeryn sy'n ymwneud â theitl) unrhyw dir nad yw'n perthyn i awdurdod lleol.

(7) Mae person yn cyflawni trosedd os bydd y person—

(a) yn gwrthod cydymffurfio â gofyniad gwŷs a gyflwynir i'r person o dan is-adran (3) neu'n methu'n fwriadol â chydymffurfio â gofyniad o'r fath,

(b) yn newid, atal, cuddio neu ddinistrio'n fwriadol unrhyw wybodaeth y mae'n ofynnol i'r person ei chyflwyno o dan yr adran hon.

(8) Mae person sy'n euog o drosedd o dan is-adran (7) yn agored ar gollfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol neu'r carchar am dymor nad yw'n hwy na 6 mis, neu'r ddau.

***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

(9) Caiff y person neu'r corff sy'n peri i ymchwiliad gael ei gynnal o dan yr adran hon wneud gorchmynion o ran—

(a) costau'r partïon yn yr ymchwiliad, a

(b) y partïon y mae'r costau i'w talu ganddynt.

(10) Caniateir i orchymyn o dan is-adran (9) gael ei wneud yn un o reolau'r Uchel Lys ar gais parti a enwir yn y gorchymyn.